

## PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cynghorydd I.A.N. Perry (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake. V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, E. Penn a J. Protheroe

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr G.D.D. Carroll, C.P. Franks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a Dr. I.J. Johnson.

### 638 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 639 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S.T. Wiliam.

### 640 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd, 2023 fel cofnod cywir.

### 641 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd S. Lloyd-Selby fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 5 ar yr Agenda – drafft o Gynllun Cyflawni Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2024-25. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Lloyd-Selby yn Ymddiriedolwr Banc Bwyd y Fro ac wedi cael cymorth gan y Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Lloyd-Selby ei bod wedi derbyn gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau, felly arhosodd yn y cyfarfod am gyfnod yr eitem ar yr agenda.

Dywedodd y Cynghorydd V.P. Driscoll datganodd ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem 8 ar yr Agenda – Adroddiad Monitro Cynllun Cyflawni Blynyddol: Perfformiad Chwarter 2 2023/24. Roedd hyn o ddiddordeb personol yn y ffaith mai'r Cynghorydd Driscoll oedd Cyfarwyddwr y cwmni a oedd wedi gwneud cais am grant y Cyngor.

Roedd natur yr adroddiad yn golygu bod modd i'r Cynghorydd Driscoll aros yn y cyfarfod ar gyfer eitem yr agenda.

642 ADNEWYDDU CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2023/24 I 2028/29 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet dyddiedig 16 Tachwedd, 2023 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda.

Gofynnodd y Cynghorydd M. Hooper ymholiad cyffredinol ynghylch pwysau cost a phryd y byddai angen i'r Cyngor ystyried y math o weithgareddau a gwasanaethau y mae'n eu darparu. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at gyfleoedd mewn perthynas â buddsoddi i arbed a gofynnodd a oedd y Cyngor wedi ystyried cyflwyno Ardoll Twristiaeth ac a ystyriwyd cyflwyno ffioedd ar gyfer trwyddedau parcio preswyl. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg, mewn perthynas â chyllideb sylfaen sero, fod y prif fater mewn perthynas â'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni effaith ymgymryd ag ymarfer cyllidebu sylfaen sero llawn. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai angen i'r Cyngor ystyried ymarferion cyllidebu sylfaen sero ar gyfer y cynigion mwy trawsnewidiol er mwyn cyflawni cyllideb gytbwys. Byddai rhai cyfleoedd hefyd lle byddai'r Cyngor yn ceisio adennill costau. O ran Ardoll Twristiaeth, cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol nad oedd cynigion o'r fath ar hyn o bryd ac mewn perthynas â thrwyddedau parcio preswyl, roedd cynnig fel rhan o'r rhaglen arbedion. O ran y pwyntiau yn ymwneud ag Ardoll Twristiaeth, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar bwerau Treth Twristiaeth, ond nid oedd y rhain eto i'w cyflwyno felly nid oedd y Cyngor ar hyn o bryd yn gallu cyflwyno ardoll hyd yn oed os oedd am wneud hynny. Byddai hyn yn benderfyniad gwleidyddol ar gyfer y dyfodol.

Gwnaeth y Cynghorydd A. Ernest sylw ar y cynnig i gynyddu tâl y Cyngor am eiddo gwag. Cyfeiriodd hefyd at gynnydd mewn ffioedd a thaliadau yr oedd yn teimlo ei fod yn "hunan-drechu" ac y byddai'n effeithio ar nifer y bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon, ac roedd hefyd yn pryderu bod digwyddiadau wedi arwain at ddiffyg. Yn olaf, gwnaeth y Cynghorydd Ernest sylw ar y diffyg cyllidebol ar gyfer y dyfarniad cyflog staff, a fyddai'n debygol o arwain at gynnydd sylweddol yn y Dreth Gyngor. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol, mewn perthynas ag eiddo gwag, fod rhesymau polisi penodol dros godi premiwm er mwyn ceisio adfer rhai o'r eiddo gwag yn y Fro i'w defnyddio eto ac i helpu gyda'r galw am dai. Yn ogystal, byddai'r tâl hefyd yn codi llif incwm i gynorthwyo'r Cyngor i fodloni rhai o'r anghenion am dai. O ran ffioedd a thaliadau, cynnig y Cyngor oedd cynyddu prisiau gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) lle bo hynny'n bosibl. Roedd rhai meysydd lle byddai'r cynnydd yn debygol o fod yn is na'r MPD - un o'r meysydd hyn oedd chwaraeon ieuencid. Roedd y rhan fwyaf o'r ffioedd a'r taliadau yn ymwneud â gwasanaethau disgresiynol a nod y Cyngor oedd adennill costau a fyddai'n galluogi gwasanaethau i barhau o fewn yr hinsawdd ariannol anodd. O ran digwyddiadau, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y Cyngor yn hanesyddol wedi ariannu cyfraniadau sylfaenol o gronfa wrth gefn benodol, ond bod y gronfa wrth gefn honno wedi cael ei defnyddio'n llwyr yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, felly roedd y Cyngor am greu cyllideb sylfaenol yn ogystal â gwneud gwaith dichonoldeb mewn perthynas â nawdd neu ffrydiau cyllido ar wahân i gynorthwyo.

Dyweddodd y Cadeirydd ei bod yn siŵr y byddai'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r ymrwymiad i sicrhau bod gwasanaethau i'r trigolion mwyaf agored i niwed yn cael eu cynnal ac y byddai cefnogaeth y Pwyllgor yn cael ei chyfleu i'r Cabinet. Roedd y Cadeirydd hefyd yn dymuno tynnu sylw, gan fod y Cyngor yn wynebu heriau sylweddol o ran ei sefyllfa gyllidebol, at y ffaith ei bod yn bwysig i'r Cyngor bwysleisio i'r cyhoedd yn ystod ymarferion ymgynghori'r heriau ariannol o fewn realiti'r pwysau economaidd yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu er mwyn sicrhau bod disgwyliadau'r cyhoedd yn cael eu rheoli. Cytunwyd ar argymhellion y Cadeirydd gan y Pwyllgor Craffu.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd ac Adfywio yn cefnogi'r ymrwymiad i sicrhau bod gwasanaethau i'r trigolion mwyaf agored i niwed yn cael eu cynnal ac i hyn gael ei gyfleu i'r Cabinet.

(2) Y dylid hysbysu'r Cabinet hefyd o farn Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio, gan fod y Cyngor yn wynebu rhai heriau sylweddol o ran sefyllfa'r gyllideb, ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn pwysleisio'r angen i sicrhau ymgynghoriad cyhoeddus. yn nodi'n glir yr heriau ariannol o fewn realiti'r pwysau economaidd yr oedd y Cyngor yn ei wynebu er mwyn sicrhau bod disgwyliadau'n cael eu rheoli.

#### Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Ystyried y trafodaethau yn y cyfarfod a chynnwys yr adroddiad a hysbysu'r Cabinet o farn Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio.

#### 643 CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2024-25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet dyddiedig 30 Tachwedd, 2023 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda.

Gofynnodd y Cadeirydd am waith y Cyngor i wella ei berthynas â'r trydydd sector, mentrau cymdeithasol a Chynghorau Tref a Chymuned. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd, o safbwynt ei Gyfarwyddiaeth, fod hyn yn ymwneud â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a gwaith y Tîm Cymunedau Creadigol. Un o'r meysydd yr oedd y Cyfarwyddwr Lleoedd am ei gryfhau oedd gweithio'n agosach gyda'r trydydd sector, grwpiau gwirfoddol a sefydliadau cymunedol. Felly, dyrannwyd cyllid i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gefnogi gweithgareddau'r grwpiau hynny a phenodwyd Swyddog i gefnogi'r 3 ward â'r amddifadedd mwyaf ym Mro Morgannwg er mwyn cynorthwyo gyda'r argyfwng costau byw yn ogystal â meysydd ffocws eraill. Gan fod y gwaith hwnnw'n amcan corfforaethol, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd y byddai'n fwy priodol i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol wneud sylwadau a rhoi ymateb manylach, felly byddai ateb llawn yn cael ei anfon drwy e-bost.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cynnwys y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft 2024-25.

### Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

644 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1AF EBRILL I 30AIN MEDI, 2023 (CAT) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf am y cyfnod 1af Ebrill i 30ain Medi, 2023. Roedd manylion fesul cynllun i'w gweld yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Roedd Atodiad 2 yn rhoi crynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 6 Mawrth hyd at 30 Medi, 2023, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt yn yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn nodi unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2023/24 a'r blynyddoedd i ddod.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r Rhaglen gymeradwy bresennol o £129.298m ond roedd yn bwysig nodi nad oedd hyn yn debygol o gael ei gyflawni a gofynnwyd am lithriad o £18.801m. Byddai cynlluniau'n cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf a rhagwelwyd y byddai mwy o geisiadau am lithriad mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Oherwydd y sefyllfa ariannol bresennol roedd Rhaglen Gyfalaf y Cyngor wedi cael ei hadolygu. Gofynnodd yr adroddiad am newidiadau a fyddai'n rhyddhau cyllid yn ôl i gronfeydd wrth gefn y Cyngor, derbyniadau cyfalaf a ffynonellau eraill o gyllid cyfalaf i sicrhau bod cyllid yn fwy cynaliadwy a bod modd cyflawni'r Rhaglen Gyfalaf. Cynigiwyd dileu rhai cynlluniau heb eu hymrwymo a throsglwyddo arian i helpu i liniaru pwysau referniw blynyddoedd i ddod, fel y dangosir yn y tabl isod.

<b>Ffynhonnell Gyllido</b>	<b>£'000</b>
Cronfeydd wrth gefn	2,174
Derbyniadau Cyfalaf	500
Cyllid Cyfalaf Cyffredinol	2,450
Benthyca	400
Cyfraniad Refeniw i Gyfalaf	21
<b>Cyfanswm</b>	<b>5,545</b>

Gofynnodd y Cadeirydd pam nad oedd £400k wedi cael ei ymrwymo i'r Cynllun Amnewid Cerbydau Trydan. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod hynny'n gysylltiedig â chyllid nad oedd wedi'i ymrwymo yn ystod y flwyddyn, ac fel rhan o adolygiad y Cyngor a amlygodd nad oedd angen yr arian hwnnw mwyach ac felly y gellid ei ddefnyddio i liniaru rhywfaint o'r pwysau ariannol o fewn y gyllideb

refeniw. O ran cyflwyno cerbydau trydan, roedd hynny'n rhan o adolygiad strategol ehangach a oedd yn cael ei gynnal gan y Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd A. Ernest am fwy o fanylion ynghylch gorwariant i raglen gwella safleoedd bysus Trafnidiaeth Cymru a'r rhaglen seilwaith bysus. Cyfeiriodd hefyd at £50k ychwanegol sydd ei angen ar gyfer cynllun cymunedol Belle Vue. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai angen ystyried yr ymholiadau a rhoi mwy o fanylion drwy e-bost.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J. Protheroe at ganolfan ailgylchu gwastraff y cartref Llandŵ ac ymdrechion i ddod o hyd i safle newydd. Gofynnodd y Cynghorydd Protheroe pam mae'r cario ymlaen wedi gostwng £750k a beth oedd y cynlluniau presennol ar gyfer dod o hyd i safle newydd. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, o ran y gyllideb gyffredinol o £1.95m, mai dyna oedd yr amcangyfrif o'r gost i gyflawni'r prosiect newydd ar gyfer safle ailgylchu newydd yn Llandŵ. Hyd yma, nid oedd y Cyngor wedi gallu dod o hyd i safle priodol ond roedd gwaith ailwynebu wedi dechrau gwella mynediad cerbydau i'r safle ailgylchu presennol yn Llandŵ a byddai gwaith ailwynebu pellach yn parhau. Ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol fod £1.2m wedi llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf o ran y gyllideb o £1.95m. Arhosodd y £750k yn y gyllideb bresennol ar gyfer eleni a olygai nad oedd arian gwirioneddol wedi'i dynnu o'r gyllideb, ond roedd ailbroffilio wedi bod. Felly, roedd yn debygol y byddai'n rhaid cario cyllideb y flwyddyn bresennol ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at wariant cyfalaf y gyllideb ar gyfer y Fargen Ddinesig a gofynnodd a oedd mwy o fanylion ynghylch y gwahaniaeth rhwng y gwariant a ragwelwyd a'r gwariant gwirioneddol. Yn ogystal, dywedodd y Cynghorydd Hooper fod chwyddiant ar lefel is pan gafodd y gyllideb o £129m ei gosod, felly gofynnodd am effaith chwyddiant cynyddol ar Raglen Gyfalaf y Cyngor. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y wybodaeth yn yr adroddiad yn adlewyrchu gwaith ailbroffilio a oedd wedi cael ei gynghori gan Gyngor Dinas Caerdydd a oedd yn rheoli'r maes cyllideb hwnnw. Roedd mwy o wybodaeth ar gael, a dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai hyn yn cael ei hanfon drwy e-bost. O ran effaith pwysau chwyddiant, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai rhywfaint o golli gwerth wedi bod, yn enwedig mewn perthynas â'r costau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant adeiladu ac y byddai hynny wedi cael effaith ar faint o waith y gallai'r Cyngor ei wneud. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai'n mynd â'r ymholiad ac yn cynnal asesiad ac yn rhoi mwy o wybodaeth maes o law. Ychwanegodd y Cadeirydd hefyd y byddai adroddiad ynglŷn â Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yn y Flwyddyn Newydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ernest at gofnodion Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan nodi y gallai'r rhain fod yn fwy manwl a dywedodd y Cadeirydd y byddai sylwadau'r Cynghorydd Ernest yn cael eu nodi.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd bob amser yn glir pam y cafodd rhaglen neu gynllun ei ohirio neu ei lithro felly byddai'n ddefnyddiol pe bai adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys mwy o wybodaeth, gan gynnwys achlysuron lle bu gorwariant cyllidebol.

Wedi hynny, yr oedd

**ARGYMHELLWYD –**

(1) Nodi'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2023/24 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y dangosir yn Atodiad 1 sydd ynghlwm.

(2) Nodi'r defnydd o awdurdod dirprwyedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, a grynhoir ym mharagraff 2.8 ac y manylir arno yng nghorff yr adroddiad ym mharagraff 2.7.

(3) Nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad sydd ynghlwm.

(4) Nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2023/24 a'r blynyddoedd i ddod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, a grynhoir ym mharagraff 2.3 i 2.7 ac y manylwyd arnynt yng nghorff yr adroddiad o baragraff 2.16 ymlaen.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**645 MONITRO REFENIW CHWARTER 2 2023/24 (CAT) –**

Mae'r tabl isod yn nodi'r Gyllideb Ddiwygiedig yn ôl Cyfarwyddiaeth:

Cyfarwyddiaeth	Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24 £000oedd	Aldro a Ragwelir 2023/24 £000oedd	Amrywiad £000oedd	Defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn £000oedd	Amrywiad Gweddilliol 2023/24 £000oedd	Defnydd o gronfeydd wrth gefn 2023/24 £000oedd
Ysgolion	114,239	114,410	171	171	0	8,921
Dysgu a Sgiliau	14,050	14,671	621	621	0	1,718
Gwasanaethau Cymdeithasol	85,260	93,529	8,269	5,884	2,385	9,912
Yr Amgylchedd a Thai	31,809	33,009	1,200	0	1,200	295
Adnoddau Corfforaethol	17,081	16,781	-300	0	-300	519
Lle	3,401	3,493	92	92	0	485
Polisi	30,678	27,393	-3,285	0	-3,285	-42
Defnydd o gronfeydd wrth gefn	-2,096	-2,096	0	0	0	-2,096
<b>Cyfanswm</b>	<b>294,422</b>	<b>301,190</b>	<b>6,768</b>	<b>6,768</b>	<b>0</b>	<b>19,712</b>
Cyfrif Refeniw Tai	<b>15,538</b>	<b>15,538</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Cyfanswm wedi'i Addasu</b>	<b>309,960</b>	<b>316,728</b>	<b>6,768</b>	<b>6,768</b>	<b>0</b>	<b>19,712</b>

Parhaodd y sefyllfa refeniw ar gyfer 2023/24 i adlewyrchu'r galw heriol a'r pwysau chwyddiant, gyda galw cynyddol mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion a chynnydd sylweddol yng nghost lleoliadau a pheynnau gofal. Roedd cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau'n faes dan bwysau mawr o fewn Dysgu a Sgiliau. Roedd y Cyngor hefyd yn profi pwysau chwyddiant parhaus mewn perthynas â Thrafnidiaeth Ysgol. Ar draws y gwasanaethau roedd pwysau chwyddiant hefyd yn cael eu profi yng nghyswllt cyflogau, yn fwyaf nodedig lle'r oedd grymoedd y farchnad yn cael eu defnyddio ac o ran y bwlch cyllido rhwng darpariaeth ar gyfer y dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24 a'r dyfarniad cyflog tebygol ar gyfer 2023/24.

Roedd y Cyngor wedi nodi nifer o gamau i'w cymryd yn ystod y flwyddyn i helpu i liniaru'r gorwariant hwn sy'n dod i'r amlwg a diogelu cronfeydd wrth gefn, roedd hyn yn cynnwys rheolaethau llymach ar wariant a recriwtio ac adolygiad o'r Rhaglen Gyfalaf. Roedd y Gyfarwyddiaeth Adnoddau Corfforaethol wedi nodi tanwariant posibl o £300,000 i'w wrthbwyso yn erbyn gorwariant sy'n dod i'r amlwg ac roedd tanwariant wedi'i ragweld o £1 miliwn yn erbyn incwm y Dreth Gyngor oherwydd y casgliad wedi'i ragweld o ôl-ddyledion, eiddo newydd, newidiadau mewn lwfansau a phremiymau ar gartrefi gwag.

Roedd targedau arbedion ac effeithlonrwydd heriol wedi'u pennu ar gyfer 2023/24 ac roedd hyn yn cynnwys targed o £2.75m ar gyfer ysgolion a £4.628 miliwn o arbedion Corfforaethol. Adlewyrchwyd y cynnydd yn erbyn y targedau arbedion hyn yn yr Atodiad ac fe'u crynhoir yn y tabl isod.

Cyfarwyddiaeth	Targed	Rhagwelwyd	% a Gyflawnwyd	Lliniaru	% y Lliniaru a Gyflawnwyd	Diffyg	% y Diffyg
	£000au	£000au		£000au		£000au	£000au
Polisi	1,615	1,615	100%	-	0%	-	0%
Adnoddau	582	331	57%	250	43%	1	0%
Cymdogaeth a Thai	1,000	640	64%	40	4%	320	32%
Dysgu a sgiliau	564	383	68%	-	0%	181	32%
Gwasanaethau Cymdeithasol	681	556	82%	-	0%	125	18%
Lle	265	173	65%	-	0%	92	35%
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,707</b>	<b>3,698</b>	<b>79%</b>	<b>290</b>	<b>6%</b>	<b>719</b>	<b>15%</b>

Mae trosglwyddiadau wedi'u rhagweld i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt wedi'u nodi yn y tabl isod:

Fel ar	Balans ar 01/04/2023	Cyllid Cyfalaf	Trosglwydd o wedi'i gynllunio (o) gronfeydd wrth gefn	Trosglwyddo wedi'i gynllunio o i gronfeydd wrth gefn	Tynnu i lawr heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn	Amcangyfrif o'r Balans 31/03/2024
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfa Gyffredinol	11,523	-	- 496	0	- 171	10,856
Yswiriant	4,877	-	0	0	0	4,877
Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau	22,521	- 672	- 6,329	42	- 6,666	8,896
Cronfeydd Risg a Llyfnhau	29,802	- 3,276	- 3,966	0	-	22,560
Cyfalaf	17,726	- 10,331	0	403	-	7,798
Ysgolion	7,254	-	-	0	- 6,500	754
Cyfrif Refeniw Tai	16,486	- 15,537	0	0	0	949
Cyfanswm	110,190	- 29,816	- 10,791	445	- 13,337	56,690

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gorwariant o £850k mewn perthynas â cheudyllau a chyweirio priffyrdd a gofynnodd pam mae hynny wedi codi. Mewn ymateb, rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth rywfaint o gefndir ynghylch statws yr adroddiad Asedau Priffyrdd a gynhaliwyd yn 2019. Roedd yr adroddiad hwnnw wedi nodi bod angen £3.5m y flwyddyn ar y Cyngor i gynnal a chadw priffyrdd. Roedd adolygiad o hynny ar y gweill, ac roedd disgwyl i'r ffigwr blynyddol godi i oddeutu £5m. Roedd hynny wedi golygu bod y costau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r priffyrdd wedi cynyddu. Ar hyn o bryd roedd y pris i drwsio ceudwll yr un fath ag a dalwyd yn 2021, ond gan fod cyllideb Gyfalaf y Cyngor wedi'i chyfyngu, roedd llai o gynlluniau cyfalaf yn cael eu cynnal. Roedd hynny'n golygu bod nifer y ceudyllau'n fwy heriol. Roedd yn debygol y byddai gorwariant diwedd blwyddyn y gyllideb oddeutu £1.5m. Roedd gorwariant blaenorol wedi cael ei reoli drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, ond gan fod cronfeydd wrth gefn yn lleihau, byddai'r gorwariant yn parhau am flynyddoedd i ddod oni bai bod y gyllideb yn cael ei chynyddu.

Gofynnodd y Cynghorydd M. Hooper a oedd tanwariant y llynedd mewn perthynas â cheudyllau. Gofynnodd y Cynghorydd Hooper hefyd a oedd yr holl arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol wedi'u nodi a hefyd a oedd y Cyngor wedi rhoi cyfyngiadau ar recriwtio staff a gofynnodd faint o swyddi gwag a oedd gan y Cyngor na fyddent yn cael eu llenwi. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol mewn perthynas â'r tanwariant a adroddwyd y llynedd o ran ceudyllau, fod hynny'n ymwneud â Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer gwaith ailwynebu ac amseru pryd y gellid gwneud gwaith gan fod tywydd garw yn chwarae rhan allweddol o ran pryd y gellid gwneud gwaith a pha mor hir y parhaodd y driniaeth ailwynebu. Felly, byddai arian yn cael ei lithro i'r flwyddyn nesaf i wneud



gwaith yn yr haf yn hytrach na'r gaeaf. Nododd y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o gyllideb ailwynebu'r Cyngor yn gyffredinol yn cael ei gwario erbyn mis Hydref, ond bod rhywfaint o arian yn cael ei gadw rhag ofn y byddai argyfwng. O ran arbedion effeithlonrwydd, dywedodd y Swyddog fod arbedion naill ai wedi cael eu lliniaru yn erbyn ffynonellau incwm ychwanegol neu eu gwrthbwysio gan gronfeydd wrth gefn gyda disgwyliad y byddai arbedion yn cael eu cyflawni'n llawn yn ystod 2024/25. O ran swyddi gwag staff, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai'r niferoedd yn cael eu hanfon drwy e-bost. Ychwanegodd y Swyddogion nad oedd oedi wedi bod ar recriwtio staff ond bod mwy o graffu ac asesu wrth gynnal ymarfer recriwtio. Roedd hynny'n golygu bod gan y Cyngor fwy o swyddi wag na'r arfer.

Gofynnodd y Cynghorydd J. Protheroe am y rhesymeg ynghylch sut y nodwyd arbedion cyllidebol. Mewn ymateb, esboniodd y Rheolwr Gweithredol fod y Cyngor wedi ceisio osgoi gosod targedau arbed eang gan y bu anhawster cyflawni arbedion llawn yn y gorffennol, felly roedd y Cyngor wedi mabwysiadu dull lle gofynnir i Gyfarwyddiaethau gyflwyno cynigion yn seiliedig ar gyfres o ganrannau'r cyllidebau. Byddai'r cynnydd o ran cyflawni arbedion yn cael ei adolygu'n rheolaidd ar lefel Gorfforaethol, gyda chyfleoedd arbed eraill yn cael eu nodi.

Cyfeiriodd y Cynghorydd V.P. Driscoll at glefyd coed ynn a gofynnodd a oedd gan y Cyngor ddigon o gronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â'r sefyllfa waethaf posibl. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol ei fod wedi cael ei gydnabod nad oedd y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol ac felly byddai angen cyllideb sylfaenol i fynd i'r afael â materion wrth symud ymlaen.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E. Penn at waith ailwynebu ffyrdd a lefel y gyllideb yn 2021 a oedd yr un fath â'r gyllideb bresennol a gofynnodd a oedd y gwaith a wnaed yn dod o dan yr un fanyleb. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod y manylebau yr un fath a oedd yn ymwneud â dyfnder a lled ceudyllau a oedd angen sylw.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, mae'r Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2023/24 yr Awdurdod.

### Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

### 646 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 2 2023/24 (CL) –

Cyflwynodd yr adroddiad perfformiad gynnydd y Cyngor yn Chwarter 2 (Ch2) (1 Ebrill i 30 Medi, 2023) tuag at gyflawni ei ymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol (2023/24) fel sy'n cyd-fynd â'i Amcanion Lles yn y Cynllun Corfforaethol.

Oherwydd yr heriau capasiti cyfredol o fewn y Tîm Perfformiad Corfforaethol, roedd fformat Adroddiad Monitro Cynllun Cyflawni Blynyddol y chwarter hwn (Ch2) wedi'i ddiwygio dros dro, er mwyn galluogi'r Cyngor i barhau i roi trosolwg i Aelodau

Etholedig o'r cynnydd o ran cyflawni ei ymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith pob Pwyllgor Craffu.

Rhoddodd y cyflwyniad wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad grynoded o'r cynnydd yn erbyn ymrwymadau'r Cyngor yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2023/24 fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch2 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd. Ar ôl ei ystyried, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu gyfeirio ei farn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Gofynnodd y Cynghorydd M. Hooper am fwy o wybodaeth am waith y Swyddog i gefnogi wardiau Buttrills, Gibbonsdown a Court. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at gyflwyno'r terfyn cyflymder 20mya a gofynnodd beth oedd y Cyngor wedi'i wneud i sicrhau bod ei staff yn cadw at y terfynau newydd. Gofynnodd hefyd a oedd y Cyngor yn defnyddio ei bŵer meddal i annog tacsis a gwasanaethau bysus i gadw at y terfynau. O ran y Swyddog i gefnogi'r 3 ward, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd mai dim ond am ychydig wythnosau y bu'r Swyddog yn y swydd, felly roedd yn y cam cychwynnol o wneud cysylltiadau a deall anghenion yr ardaloedd. Byddai mwy o wybodaeth yn cael ei hanfon drwy e-bost.

Mewn ymateb i'r ymholiadau ynghylch terfynau cyflymder 20mya, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth mai cyfrifoldeb yr Heddlu oedd gorfodi parthau 20mya ond bod y Cyngor yn defnyddio mesurau meddal fel arwyddion a thwmpathau cyflymder. Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch gorfodi yn weddol newydd, felly roedd arferion yn dal i gael eu hymwreiddio. O ran sicrhau bod staff y Cyngor yn cydymffurfio â'r terfynau, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod gan y Cyngor bolisi yr oedd angen i staff lynu ato hefyd. Dywedodd ei bod yn ofynnol i unrhyw weithiwr sy'n gyfrifol am gerbyd y Cyngor gydymffurfio â'r terfynau cyflymder. Pe bai gan unrhyw berson bryderon ynghylch cyflymder cerbyd y Cyngor, yna gallai roi gwybod am y rhain drwy'r sianeli priodol. Yn ogystal, roedd cerbydau'r Cyngor yn cynnwys tracwyr a lluniwyd adroddiadau cyfnodol felly byddai'r Cyngor yn adolygu gwybodaeth pan fyddai ar gael. O ran bysus a thacsis, ychydig iawn o bwerau a oedd gan y Cyngor, a'r Heddlu a oedd yn gyfrifol am orfodi.

Gofynnodd y Cynghorydd A. Ernest am gynnydd Cyfnewidfa Cogan. Mewn ymateb, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod Trafnidiaeth Cymru yn gwneud y gwaith asesu WelTag (Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru) cychwynnol ar hyn o bryd. Wrth i'r gwaith hwnnw fynd rhagddo, byddai cyfle i'r gymuned ymgysylltu a chymryd rhan mewn perthynas ag unrhyw gynig penodol ar gyfer y lleoliad hwnnw ac mewn perthynas â chreu cysylltiadau gwell â rhannau eraill o Benarth a'r ardal ehangach.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J. Protheroe at y gwaith a oedd yn cael ei wneud gydag E-ON a dywedodd yr hoffai fwy o eglurhad o beth oedd y gwaith hwnnw. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod yr ymholiad yn ymwneud â chyllid a oedd yn cael ei roi i anheddau preifat i ôl-ffitio datrysiadau ynni a gwresogi gwyrdd a'i fod yn ddibynnol ar incwm yr aelwyd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Protheroe at ynni

cymunedol hefyd a chafodd wybod bod y Cyngor yn datblygu cynllun ynni ardal leol gyda chydweithwyr ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar sail ranbarthol ac y byddai'r cynllun hwnnw'n edrych ar sut yr oedd ynni'n cael ei ddefnyddio ar draws Bro Morgannwg a hefyd sut y byddai hynny'n edrych ar gyfer y dyfodol. Roedd ymgynghorwyr wedi cael eu recriwtio i edrych ar y cynllun yn fanylach felly roedd y gwaith yn parhau. Yn ogystal, roedd y Cyngor hefyd yn adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol a oedd yn cynnwys rhaglenni ynghylch datgarboneiddio a fyddai hefyd yn adlewyrchu cynlluniau i wella'r broses o ddal carbon o fewn adeiladau hen a newydd. Felly, roedd ymgynghorwyr hefyd wedi'u cyflogi i nodi arfer gorau ac i amlinellu cyfleoedd yn y dyfodol. Nodwyd mai un o'r ychydig gynghorau yn y DU i gynnwys datgarboneiddio o fewn y Cynllun Datblygu Lleol oedd Caerfaddon, felly roedd y Cyngor yn ymgysylltu â'r un ymgynghorwyr a oedd wedi ymgymryd â'r gwaith ar gyfer Cyngor Caerfaddon.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Perry ynghylch defnyddio ffyrdd cul a pharcio cerbydau asiantaeth/brys ar droedffyrdd, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar gynigion ynghylch rhoi'r pwerau i Gynghorau orfodi cosbau am barcio ar balmentydd gan achosi rhwystr. Felly disgwyliwyd canlyniad cynigion ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. O ran dylunio ffyrdd, byddai'r Cyngor yn defnyddio ffyrdd cul ar gyfer datblygiadau tai newydd ond nid oedd digon o arian i ailgynllunio'r rhwydwaith ffyrdd presennol. O ran defnyddio ffôn a gyrru cerbyd, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod hynny'n anghyfreithlon felly mater i'r Heddlu fyddai hynny. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn cymryd rhan mewn mentrau diogelwch ar y ffyrdd ar y cyd â'r Heddlu.

Gofynnodd y Cynghorydd Hooper am bryderon ynghylch ansawdd y dŵr ar Draeth Ogwr a gofynnodd pa fesurau a oedd wedi'u hystyried i sicrhau diogelwch ymdrochwyr ac a oedd hynny'n rhywbeth y dylid ei amlygu yn yr adroddiad. Gofynnodd y Cynghorydd Hooper hefyd am gymhlethdodau cynlluniau cyllid Llywodraeth y DU ac yn enwedig y cais Ffyniant Bro a gallu Cyngor i fodloni terfynau amser. Mewn ymateb, mewn perthynas ag ansawdd y dŵr ar Draeth Ogwr, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod y sefyllfa yn yr adroddiad yn adlewyrchu diwedd Chwarter 3 felly mae'n debygol y byddai'n risg sy'n dod i'r amlwg o fewn adroddiad Chwarter 3. Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru a oedd yn gyfrifol am ansawdd y dŵr ac roedd gan y Cyngor fudd mewn sicrhau bod ansawdd y dŵr cystal ag y gallai fod, yn enwedig o safbwynt twristiaeth. Felly, byddai'n ofynnol i'r Cyngor osod arwyddion yn yr ardal yn rhoi gwybod am faterion ansawdd dŵr a byddai'r Cyngor hefyd yn ceisio nodi beth oedd wedi achosi'r darlenniadau ansawdd gwael a hefyd gweithio gyda'r asiantaethau eraill i sicrhau gwelliannau i ansawdd y dŵr.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ernest at heriau staff a'r anawsterau o ran denu swyddogion gyda'r cymwysterau a'r profiad priodol er mwyn llenwi rhai swyddi gwag hirdymor. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd nad oedd hyn yn unigryw i Fro Morgannwg ac roedd Awdurdodau Lleol eraill wedi bod yn cael trafferth llenwi nifer o swyddi gwag. O ran ei Gyfarwyddiaeth, roedd wedi dod yn anoddach denu graddedigion prifysgol a byddai hynny'n gysylltiedig â chyfradd y taliadau cydnabyddiaeth a gynigir gan Gynghorau ac effaith y pwysau cyllidebol a oedd yn wynebu'r sector cyhoeddus. Er mwyn goresgyn rhai o'r materion roedd y Cyngor

wedi ymateb, er enghraifft o ran yr heriau i recriwtio gyrwyr cerbydau nwyddau trwm, roedd y Cyngor wedi cynyddu'r cynnig cyflog. O fewn yr Adran Gynllunio, roedd y Cyngor wedi cyflogi myfyrwyr yr oedd gofyn iddynt ymgymryd â blwyddyn allan yn ystod eu hastudiaethau ac roedd hynny'n golygu, pan oeddent yn dod i ddiwedd eu cyrsiau, eu bod yn cael eu hannog i ddod yn ôl i'r Cyngor pan oedd eu hastudiaethau wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, roedd y problemau'n gymhleth a'r rhesymau'n hynod amrywiol.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, felly

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi canlyniadau perfformiad Chwarter 2 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blyneddol 2023/24 sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y dylid nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.